

Rhagair y Gweinidog

Mae *Ffyniant i Bawb* yn amlinellu agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn. Mae ein nod yn glir – rydym am greu Cymru sy'n ffynnu ac yn ddiogel, yn iach ac yn weithgar, yn uchelgeisiol ac yn dysgu; ac yn unedig ac yn gysylltiedig. Rydym am helpu pobl i ddod o hyd i waith a ffordd allan o dlodi, ac rydym am helpu pobl i fyw bywydau diogel sy'n rhoi boddhad iddynt.

Rydym wedi ymrwymo i hybu integreiddio, ac i helpu'r rhai sy'n ymfudo i Gymru i chwarae rhan lawn yn y cymunedau y maent yn ymgartrefu ynddynt. Mae'n hanfodol eu bod yn gallu cyfathrebu'n hyderus er mwyn gallu defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Bydd hyn o fudd i gymdeithas ac economi Cymru. Mae Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn rhan hanfodol o'n darpariaeth addysg i oedolion ac mae'n allweddol er mwyn cefnogi mewnfudwyr a ffoaduriaid wrth iddynt ymgartrefu.

Amlinellwyd ein dull gweithredu am y tro cyntaf yn ein *Polisi ESOL yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd y polisi'n datgan yn glir ein bod yn cydnabod ESOL fel sgil hanfodol, a'i fod yn gyfwerth â sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r datganiad polisi diweddaraf hwn yn cadarnhau'r ymrwymiad hwnnw, a hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau lu a welwyd, ac sydd wedi effeithio ar ein darpariaeth ESOL dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r galw am ESOL ar gynydd. Wrth i fwy o bobl geisio lloches yn y DU ac yng Nghymru, mae'n bwysig addasu ein darpariaeth i fodloni anghenion y grŵp amrywiol hwn o ddysgwyr. Mae'r polisi hwn yn rhan bwysig o'n nod hirdymor i Gymru fod yn *Genedl Noddfa* wirioneddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Er mwyn dangos y gwahanol fathau o ddarpariaeth ESOL sydd ar gael, rydym wedi cynnwys nifer o astudiaethau achos drwy gydol y ddogfen hon. Mae rhai o'r gweithgareddau'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, a rhai'n cael eu hariannu o ffynonellau eraill; ond mae pob un yn tystio i amrywiaeth y dysgwyr y mae angen ein help arnynt, a'r ddarpariaeth flaengar a chreadigol sy'n cael ei chynnig i fodloni eu hanghenion.

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pawb sy'n byw yng Nghymru'n cael yr un cyfle i ddefnyddio'r gwasanaethau angenrheidiol er mwyn gallu cyfrannu at ein gwlad egniol, fodern. Mae ein darpariaeth ESOL yn rhan hanfodol o hynny, ac mae'n helpu i wneud Cymru'n lle gwych i fyw a gweithio ynddo.



M. E. Myrddin

Gweinidog y Gymraeg a
Dysgu Gydol Oes

Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol yn hanfodol. Mae ein darpariaeth ESOL yn gyfwerth â'r holl Sgiliau Hanfodol gan gynnwys Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol

Mae darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru'n helpu i roi i bob aelod o'r gymdeithas y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol, cael gwaith ac addysg, a gwireddu eu potensial – a fydd yn eu galluogi i chwarae rhan weithgar yn economi, diwylliant a bywyd cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag arfer eu hawliau.

Mae gan Gymru hanes hir o fod yn wlad gynhwysol, aml-ddiwylliannol ac aml-ffydd. Mae amrywiaeth y mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru'n ychwanegu at ddiwylliant cyfoethog ein cymdeithas.

Yn ôl ffigurau mewnfudo a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, symudodd 16,826 o bobl i Gymru o'r tu allan i'r DU yn 2015/16. Mae hynny'n gyfystyr â chynnydd net o 9,676 o bobl.¹ Mae unigolion sy'n ymfudo i Gymru'n dod ag ystod o sgiliau a galluoedd gyda nhw a all fod o fudd i'n cymunedau ac i'n heconomi. Er mwyn i'r unigolion hyn ffynnu yn ein cymdeithas, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Pan gyhoeddwyd y *Polisi ESOL yng Nghymru* gyntaf yn 2014, roedd yn cynnwys cyfeiriad clir a chfres o flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno a darparu ESOL yng Nghymru. Mae ein cymdeithas wedi newid gryn dipyn ers hynny, ac mae'r datganiad polisi diweddaraf hwn yn adlewyrchu'r newidiadau hynny ac yn cadarnhau ein hymrwymiad i gyflwyno darpariaeth ESOL.

Ceir rhestr o'n blaenoriaethau gweithredu ar ddiwedd y ddogfen. Maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio'n agos â'n partneriaid ledled y sector i sicrhau bod ein darpariaeth ESOL yn effeithiol ac ar gael i bawb sydd ei hangen.

Lluniwyd y ddogfen hon drwy gydweithio'n agos â darparwyr ac arbenigwyr o bob rhan o'r sector i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion dysgwyr yn gywir.

Beth yw ESOL?

Darpariaeth i ddysgwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, ac sydd, am amrywiol resymau, wedi dod i fyw yn y DU, yw Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Mae gwahaniaeth clir rhwng ESOL ac EFL (Saesneg fel iaith Dramor), EAP (Saesneg at Ddibenion Academaidd) ac EAL (Saesneg fel iaith Ychwanegol).²

Mae ESOL yn hanfodol er mwyn integreiddio ac mae'n galluogi'r dysgwyr i weithredu'n annibynnol, ac i symud ymlaen i fanteisio ar gyfleoedd dysgu pellach neu waith; ac mae'n hybu mwy o gydlyniant cymunedol.

Mae ESOL yn sylfaen i gyfle cyfartal, ac mae'n cyfoethogi diwylliant ein cymdeithas.

¹ <http://wmp.infobasecymru.net>

² Darpariaeth i ddysgwyr sydd yn y DU dros dro i astudio yw EFL; cymorth ieithyddol i fyfyrwyr rhyngwladol yw EAP; cymorth ieithyddol i bobl ifanc yw EAL a dim ond mewngolion y mae ar gael.

Dysgwyr ESOL

Yn ein profiad ni, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau ESOL yn gwneud hynny i'w helpu i gael addysg bellach neu waith; a/neu i fagu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen arnynt i fyw a bod yn y gymdeithas.

Daw'r dysgwyr o amryw o wahanol gefndiroedd ac maent yn aml wedi cael profiadau gwahanol o addysg 'ffurfiol' cyn dod i'r DU. Yn wir, er bod llawer o ddysgwyr yn dod i Gymru â chymwysterau addysg uwch, bydd rhai heb gael addysg o unrhyw fath yn y gorffennol ac efallai na fydd ganddynt fawr ddim sgiliau llythrennedd, neu ddim o gwbl, yn eu hiaith eu hunain. O ganlyniad, ceir dosbarthiadau o ddysgwyr y mae eu sgiliau ieithyddol yn gymysg. Golyga hyn yn aml bod cynnydd dysgwyr ESOL yn hynod amrywiol. Mae amrywiaeth y dysgwyr a phrofiad y dysgwyr mewn un dosbarth ESOL yn aruthrol.

Does dim y fath beth â dysgwr ESOL 'nodweddiadol', felly mae bron yn amhosib amcangyfrif faint o amser sydd ei angen ar rywun i ddysgu'r iaith.

Cynhaliodd Dr Philida Schellekens, ymgynghorydd ac awdur sy'n ysgrifennu am ESOL, arolwg o ymchwil perthnasol yn 2011. Dangosodd yr ymchwil y byddai'n cymryd 1,765 o oriau o ddysgu dan arweiniad ar gyfartaledd i ddysgwyr (gan gynnwys cyfran o ddysgwyr heb ddim sgiliau llythrennedd yn eu hiaith gyntaf) symud o lefel dechreuwr llwyr i allu astudio pwnc arall neu gymryd swydd â gofynion cyfathrebu o ddydd i ddydd.³

Felly, gellir bwrw amcan ynglŷn â faint o amser y byddai ei angen ar ddechreuwr i gyrraedd Lefel 1:

- Byddai angen i fyfyrwr addysg bellach llawn amser (**450 o oriau dysgu dan arweiniad** y flwyddyn) astudio am bron i **bedair blynedd**
- Byddai angen i oedolion sy'n dysgu Saesneg am **ddeg awr yr wythnos** am 30 wythnos y flwyddyn astudio am **bum mlynedd a saith mis**
- Byddai angen i oedolion sy'n dysgu Saesneg am **bedair awr yr wythnos** am 30 wythnos y flwyddyn astudio am **14 mlynedd a hanner**

Felly, mae'n hollbwysig asesu dysgwyr yn gywir er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y math o ddarpariaeth sydd fwyaf addas iddynt er mwyn cyrraedd eu nod. Gall hyn fod yn her, ond mae'n hanfodol oherwydd os nad yw'r ddarpariaeth yn addas i anghenion yr unigolyn, bydd hynny'n effeithio ar ei allu i ddysgu a symud ymlaen.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd rydym yn asesu ac yn rheoli'r ddarpariaeth ESOL. Mae'r astudiaeth achos canlynol yn dangos un ffordd o wneud hyn:

³ Schellekens. 2011

Astudiaeth achos 1 – REACH

Prosiect Peilot Datrysiadau Creadigol yw REACH – Hwb Asesu Rhanbarthol ESOL – ar y cyd rhwng Coleg Caerdydd a'r Fro ac Addysg Oedolion Cymru/Adult Learning Wales (AOC/ALW). Mae'n ganolfan gyfeirio ledled Caerdydd i bob sefydliad a phartner sy'n darparu ESOL.

Mae REACH yn asesu pobl sydd am gofrestru ar gwrs ESOL ac yn dod o hyd i ddarpariaeth briodol iddynt. Mae'n fan cyswllt canolog, a'r nod yw lleihau rhestrau aros ESOL a gwella'r llwybrau cynnydd a'r canlyniadau i ddysgwyr.

Diben sefydlu'r prosiect oedd ymdrin yn uniongyrchol â rhestrau aros hir ar gyfer ESOL yng Nghaerdydd, a'r diffyg cydweithredu strategol rhwng darparwyr wrth gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth. Roedd sefydliadau'n aml yn gweithio ar eu pen eu hunain wrth ddarparu gwasanaethau ESOL.

Mae REACH yn galluogi unigolion i drafod eu hanghenion â staff REACH er mwyn sicrhau eu bod yn cael y ddarpariaeth fwyaf priodol. Ymhen 3 wythnos ar ôl cael eu hasesu, mae'r dysgwyr yn cael eu cyfeirio naill ai at ddarpariaeth brif ffrwd yn CCAF neu AOC/ALW; at gyrsiau 'ymuno a gadael' hyblyg wedi'u cynllunio'n bwrpasol a'u darparu gan AOC/ALW mewn partneriaeth â'r trydydd sector; neu at gyrsiau dysgu ar-lein drwy CCAF. Mae dysgwyr yn dechrau dosbarthiadau ESOL yn gyflym heb orfod treulio amser ar restrau aros.

Mae REACH hefyd yn darparu cronfa ddata i gynorthwyo'r broses gyfeirio ac olrhain cynnydd a hynt y dysgwyr. Gall yr holl bartneriaid weld eu darpariaeth a gweld canlyniadau asesu eu dysgwyr, a bydd hyn oll yn hybu dysgu a datblygu. Yn ogystal, mae gan REACH wefan sy'n cynnig un pwynt mynediad ar gyfer cofrestru a gwybodaeth arall ynghylch ESOL.

Mae'r prosiect hwn yn dwyn ynghyd ddarparwyr ESOL a ariennir a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau bod dysgwyr ESOL yng Nghaerdydd yn cael y cymorth a'r ddarpariaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r prosiect hwn mewn rhannau eraill o Gymru.

Darpariaeth ESOL

Mae'r math o ddarpariaeth a gynigiwn ac ansawdd y ddarpariaeth yr un mor bwysig er mwyn i gynifer â phosib o ddysgwyr elwa ar hyn.

Yng Nghymru, mae nifer o wahanol sefydliadau'n darparu ESOL yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i gynnig darpariaeth brif ffrwd. Yn y ddogfen hon, defnyddiwn y term 'darparwyr a ariennir' wrth gyfeirio at y sefydliadau hyn.

Mae darpariaeth brif ffrwd yn cynnwys dosbarthiadau llawn amser a rhan amser ar amryw o wahanol lefelau. Mae'r rhan fwyaf wedi'i hachredu, ond rydym hefyd yn cefnogi cryn dipyn o ddarpariaeth anffurfiol.

Rydym yn sicrhau bod ein darpariaeth ESOL o safon gyson uchel, a bod tiwtoriaid yn cael eu hyfforddi ar lefel sy'n eu galluogi i ddysgu ESOL yn effeithiol ac yn effeithlon. Er nad ydym yn pennu'r cymwysterau sydd eu hangen, disgwylir gan amlaf yn y sector y bydd gan

diwtoriaid ESOL o leiaf gymhwyster cyfwerth â Lefel 5 sy'n darparu'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol i ddysgu ESOL yn llwyddiannus.

Ymdrechwn bob amser hefyd i sicrhau bod tiwtoriaid yn cael cymorth priodol, i'w galluogi i gyrraedd y safonau disgwylidig. Gall fod angen mwy na dim ond sgiliau dysgu da i fod yn diwtor ESOL. Gall anghenion emosiynol ac iechyd dysgwyr ESOL yn aml fod yn eithafol, ac mae'n rhaid i diwtoriaid ESOL gael yr hyfforddiant angenrheidiol i gynorthwyo'r dysgwyr hyd eithaf eu gallu. Mae perygl hefyd i diwtoriaid brofi trawma o glywed am brofiadau goroeswyr wrth iddynt ddod yn fwy abl i adrodd eu straeon yn Saesneg.

ESOL ar gyfer addysg bellach a gwaith

Mae'n bwysig bod pob aelod o'r gymdeithas yng Nghymru'n cael cyfle i gyfrannu'n llawn i'n cymunedau ac i'n heconomi. Pan fo iaith yn rhwystro pobl rhag cystadlu am waith gan ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd ganddynt eisoes, mae'n gwneud synnwyr i ni eu helpu i fagu'r sgiliau ieithyddol hynny. Bydd hynny'n hybu budd economaidd mewnfudo i'r eithaf. Rydym hefyd yn awyddus i annog dysgwyr ESOL i barhau â'u hastudiaethau.

Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos sut y gall darpariaeth ESOL helpu dysgwyr i gael gwaith priodol.

Astudiaeth achos 2 – OA

Daeth OA yma o Rwmania gyda'i gŵr a'i phlentyn yn 2015, pan gafodd ei gŵr swydd cofrestrydd yn Ysbyty Gwynedd. Dermatolegydd oedd OA yn Rwmania, ond doedd hi ddim yn gallu gweithio yn y wlad hon oherwydd nad oedd ei sgiliau Saesneg yn ddigonol. Dechreuodd ddilyn cwrs Saesneg llawn amser yng Ngholeg Menai ym mis Medi 2016; aseswyd ei bod ar Lefel 1 neu IELTS 5.5. Wnaeth hi ddim colli'r un sesiwn, a thrwy waith caled a dyfalbarhad daeth yn rhugl ei Saesneg ac ennill IELTS Lefel 7. Ym mis Mehefin 2017 cafodd swydd glinigol dros dro yn Ysbyty Gwynedd. Mae ganddi bellach swydd llawn amser yn yr ysbyty fel Dermatolegydd.

Astudiaeth achos 3 – Irina Gonzales Marin

Daeth gŵr Irina Gonzales Marin i'r wlad hon i weithio fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Irina'n gweithio fel meddyg teulu yn Sbaen ond penderfynodd ddilyn ei gŵr i Fangor. Aseswyd bod ei sgiliau Saesneg ar lefel Mynediad 3 neu oddeutu IELTS 4.5. Ymunodd â chwrs Saesneg llawn amser yng Ngholeg Menai ym mis Mai 2016; gweithiodd ei ffordd yn gyflym drwy'r lefelau ac ym mis Mehefin 2017 enillodd IELTS 7.5. Cafodd hithau hefyd swydd glinigol dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac mae bellach yn gweithio'n llawn amser fel meddyg. Mae'n gobeithio arbenigo fel meddyg teulu yn y wlad hon yn y pen draw.

Astudiaeth achos 4 – Nashwan Damar

Ac yntau'n geisiwr lloches o Gwrdistan, cafodd Nashwan Damar fagwraeth frawychus a thrawmatig. O'r herwydd, bu'n rhaid iddo adael ei wlad enedigol a'i deulu i geisio dyfodol diogel yma yn y DU. Pan ymunodd â Choleg Gŵyr, roedd ei ryddhad yn amlwg – roedd wedi cael hyd i amgylchedd diogel a gofalgar lle y gallai fwynhau ei astudiaethau.

Er nad oedd ei Saesneg yn gryf, roedd yn ddysgwyr hyderus ac wrth i'w Saesneg wella, felly hefyd ei benderfyniad a'i hyder, a daeth yn un o gynrychiolwyr myfyrwyr ESOL. Wedi cyrraedd Lefel 1 ESOL, cafodd Nashwan waith gydag EYST (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig) yn weithiwr cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches eraill, swydd y mae'n teimlo'n angerddol yn ei chylch gan ei bod mor agos at ei brofiad ef ei hun.

Er bod dealltwriaeth sylfaenol o Saesneg yn hanfodol, mae angen dealltwriaeth fwy manwl ar ddysgwyr o eirfa eu proffesiwn hefyd os ydynt am ddod o hyd i waith. Mae cyrsiau ESOL mewn cyd-destun penodol yn gaffaeliad gwerthfawr, a gallant helpu unigolion i weithio i ddiweddarau eu cymwysterau er mwyn iddynt gael eu cydnabod yn y DU.

Mae nifer o'n darparwyr a ariennir yn datblygu cyrsiau sy'n ymgorffori ESOL mewn pwnc galwedigaethol – er enghraifft, adeiladu, lletygarwch, gofal, ac ati. Gall y cyrsiau hyn fod yn hynod fuddiol i ddysgwyr sydd am feithrin sgiliau penodol er mwyn cael gwaith.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei datblygu yn un o'n colegau Addysg Bellach.

Astudiaeth achos 5 – Cyrsiau Galwedigaethol ESOL+ yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro

Mae cyrsiau ESOL+ yn cynnig mwy o gyfleoedd sy'n canolbwyntio ar alwedigaethau a chyflogaeth i ddysgwyr ESOL er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer symud ymlaen i gyrsiau galwedigaethol prif ffrwd neu i fyd gwaith. Mae'r coleg yn cynllunio'i ddarpariaeth yn unol â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, cyfleoedd cyflogaeth realistig yng Nghaerdydd, a galw'n seiliedig ar sgiliau/cefndir addysgol y dysgwyr a'u dyheadau at y dyfodol. Mae'r coleg yn awr yn cynnig cyrsiau ESOL+ mewn amryw o bynciau gan gynnwys Lletygarwch, Adeiladu, TG a Chyfrifeg.

Mae'r cyrsiau ESOL+ yn rhai 16 awr yr wythnos ac yn cynnwys gwersi Sgiliau Bywyd, Cyflogadwyedd a Sgiliau Astudio integredig ESOL; gwersi galwedigaethol a gyflwynir gan athrawon galwedigaethol arbenigol, Sesiynau Tiwtorial a Thargedau CDU, a sgiliau rhifedd lle mae'r dysgwyr yn cael eu ffrydio i lefelau yn ôl eu gallu.

Cynigir cyrsiau ESOL+ i ddysgwyr sydd am ddilyn llwybr carlam i fyd gwaith neu addysg bellach brif ffrwd mewn maes galwedigaethol. Mae'r coleg hefyd yn cynnig cwrs Sylfaen ESOL i Oedolion gyda'r adran Addysg Gyffredinol, sy'n llwybr academaidd i ddysgwyr sydd am fynd ymlaen i addysg uwch.

Astudiaeth achos 5 – Cyrsiau Galwedigaethol ESOL+ yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro (parhad)

Drwy weithio mewn partneriaeth ag adrannau galwedigaethol prif ffrwd, mae'r coleg yn gallu hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion dysgwyr ESOL, a hefyd eu sgiliau a'u profiad o'u gwledydd eu hunain. Mae hyn wedi bod yn fodd o chwalu rhwystrau hanesyddol rhag symud ymlaen a gwella canlyniadau cyrchfannau ESOL yn sylweddol. Mae'r coleg yn awr yn gweithio gydag ACT, darparwr hyfforddiant preifat, a thîm Prentisiaethau'r coleg i ddatblygu rhaglenni pwrpasol gyda chymorth ESOL i greu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ESOL i ddilyn llwybr carlam i fyd gwaith.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynorthwyo dysgwyr ESOL i gael gwaith drwy swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith ledled Cymru. Gall dysgwyr sydd wrthi'n chwilio am waith a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gael cymorth gan swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith i ddilyn cyrsiau ESOL o'u gwirfodd. Gan weithio ar y cyd â darparwyr Llywodraeth Cymru, mae swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn cynorthwyo ceiswyr gwaith i fanteisio ar y ddarpariaeth angenrheidiol i wella eu cyfleoedd gwaith.

Fel y nodwyd yn *Ffyniant i Bawb*, mae cyflogwyr da'n rhoi gwerth ar weithwyr medrus a byddant hwythau'n buddsoddi i ddatblygu ac addasu eu gweithlu. Mae darpariaeth ESOL yn enghraifft berffaith. Er mwyn i lawer o ddysgwyr ESOL barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ar ôl cael gwaith, mae angen iddynt barhau i fanteisio ar ddarpariaeth ESOL ffurfiol yn y gweithle. Mae cyfrifoldeb ar gyflogwyr i gyfrannu at ddarpariaeth ESOL pan fo hynny'n berthnasol i'w staff. Gellir darparu ESOL yn y gweithle, a gellir addasu'r cyrsiau i'r maes gwaith perthnasol.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y mae un o'n sefydliadau Addysg Bellach yn gweithio gyda chyflogwr i gynnig darpariaeth ESOL yn y gweithle.

Astudiaeth achos 6 – Ffatri Dawn Meats

Mae Addysg Oedolion Cymru/Adult Learning Wales (AOC/ALW) wrthi'n datblygu pedwar dosbarth ESOL yn Ffatri Dawn Meats yn Crosshands, Sir Gaerfyrddin. Mae cyrsiau ESOL ar gael yn y ffatri ers 2012.

Dechreuodd AOC/ALW ddarparu cyrsiau yno drwy'r prosiect Sgiliau Hanfodol Rhanbarthol, sy'n cynnal menter ESF i bobl gyflogedig ddatblygu eu sgiliau hanfodol drwy lythrennedd, rhifedd ac ESOL. Bu hyn yn llwyddiant mawr i'r cyflogwr, y staff a'r darparwr, gydag oddeutu 30 i 40 o ddysgwyr yn cymryd rhan. Mae tua'r un nifer o ddysgwyr yn cymryd rhan hyd heddiw, ac yn gwneud yn rhagorol.

Mae'r cyflogwyr yn Dawn Meats wedi bod yn gyson ymroddedig. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, cynhelir asesiad cychwynnol i bennu lefelau sgiliau'r cleientiaid. Eleni, cynhaliwyd y sesiwn rhwng 12 canol dydd ac 8 o'r gloch yr hwyr er mwyn i weithwyr shifftiau allu cymryd rhan. Cafodd y broses hon ei chydlynu'n ofalus er mwyn i weithwyr o'r holl wahanol adrannau allu cymryd rhan, heb i hynny amharu ar gynhyrchiant y cwmni.

Astudiaeth achos 6 – Ffatri Dawn Meats (parhad)

Mae'r dysgwyr yn cael eu rhannu'n grwpiau yn ôl eu gallu a phatrymau eu shifftiau. Ar hyn o bryd mae 4 dosbarth yn cael eu cynnal, ar dair lefel – cyn-fynediad; dau ddosbarth Mynediad 1; ac un dosbarth Mynediad 2. Mae pob cwrs yn cael ei achredu drwy Agored; ac yn cael eu cynnal ar adegau pan fo'r dysgwyr yn gallu bod yn bresennol heb i hynny effeithio ar gynhyrchiant y ffatri.

ESOL ar gyfer byw'n annibynnol a dod yn rhan o'r gymdeithas

Mae iaith yn offeryn hanfodol ar gyfer integreiddio a chydlyniant cymunedol. Mae'n helpu pobl i gymryd rhan yn annibynnol yn ein cymdeithas, cyfrannu at yr economi leol, a chwarae rhan gadarnhaol, weithgar yng nghymunedau Cymru, sydd i gyd yn ategu ac yn cefnogi polisiâu cyfredol Llywodraeth Cymru.

Er bod sgiliau cyfathrebu effeithiol yn bwysig wrth chwilio am waith, i nifer o ddysgwyr ESOL, nid mynd i fyd gwaith yw'r nod yn y pen draw. Yr hyn sy'n eu sbarduno yw'r angen i allu meithrin cysylltiadau'n fwy cyffredinol yn y gymdeithas. Mae hyn cynnwys gallu:

- Cyfathrebu'n effeithiol ag ysgolion a chynorthwyo addysg eu plant;
- Cael gwasanaethau iechyd, lles, tai, ac ati;
- Cymryd rhan yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas ehangach.

Os nad ydynt yn gallu siarad Saesneg, gall hynny gyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i integreiddio'n llawn i'r gymdeithas yn y DU. Gall arwain at ynysu cymdeithasol, a gall wneud unigolion yn fwy agored i gamfanteisio a gwahaniaethu. Maent hefyd yn fwy tebygol o lawer o fod yn ddibynnol ar gymorth lles oherwydd bydd ymfudo yn aml wedi chwalu eu rhwydweithiau cymdeithasol.⁴ Er na fydd darpariaeth ESOL ynnddi'i hun yn lleihau'r ddibyniaeth hon ar gymorth lles, gall helpu i alluogi'r unigolyn i weithredu mor annibynnol â phosib yn y gymdeithas.

I lawer, gallu cyfathrebu'n effeithiol ag ysgolion â'r gwasanaethau iechyd, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar les y teulu, yw elfen bwysicaf eu dysgu. Mae darparwyr wedi gweld bod cynnig cyfleoedd dysgu teuluol yn gallu cael effaith gadarnhaol oherwydd mae'n annog pob aelod o'r teulu i ddysgu gyda'i gilydd, a chymdeithasu â theuluoedd eraill.

Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos sut y mae hyn wedi bod yn effeithiol.

⁴ Holtom, Bottrill, a Watkins. 2013. t.30

Astudiaeth achos 7 – Prosiect Haf Caerdydd a'r Fro

Yn rhan o'u rhaglen ESOL i ffoaduriaid ar y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed (VPRS), bu darparwyr ledled Caerdydd a'r Fro'n cydweithio i ddatblygu cynllun peilot i annog integreiddio a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol/cymunedol.

Cymerodd oddeutu 45 o bobl, o 10 teulu, ran yn y prosiect trochi dros bythefnos. Bob dydd, byddai teuluoedd yn cwrdd yn y bore ac yn rhannu'n wahanol grwpiau – meithrinfa a chylchoedd chwarae i blant bach; gweithgareddau i bobl ifanc a'r rhai yn eu harddegau; a gwersi ESOL i'r rhai 16 oed a hŷn. Yn y prynhawn, roedd y pwyslais yn newid i weithgareddau teuluol, gan gynnwys teithiau i weld atyniadau lleol megis amgueddfeydd a llyfrgelloedd i'w helpu i ddod i ddeall diwylliant a hanes Cymru'n well; a chafwyd llawer iawn o hwyl wrth wneud hynny

Llwyddodd y prosiect i greu effaith ar rai o'r 'canlyniadau meddal' megis hunan-barch, a dywedodd nifer o'r rhai a gymerodd ran eu bod yn teimlo'n fwy hyderus. Oherwydd natur un-ag-un llawer o'r cymorth hwn, nodwyd rhai pryderon ynghylch iechyd meddwl, a threfnwyd cymorth priodol ar ffurf cwnsela proffesiynol. Mae nifer o'r rhai a gymerodd ran yn parhau i wneud gwaith gwirfoddol yn y ganolfan ddarparu, ac mae hynny wedi cynnig rhagor o gyfleoedd i feithrin cysylltiadau cymunedol ac i ddatblygu sgiliau ieithyddol.

Astudiaeth achos 8 – ACE Caerdydd (All Communities Engaged)

Elusen yw ACE Caerdydd i helpu plant a phobl ifanc sy'n byw yn yr amgylcheddau mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd mewn ffordd sy'n meithrin eu hyder ac yn creu ymdeimlad o fwynhau dysgu. Mae hynny wedyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn gwneud yn well yn eu harholiadau yn yr ysgol ac y bydd gwell cyfleoedd bywyd ar gael iddynt. Mae hefyd yn ceisio cynyddu hyder siaradwyr ieithoedd eraill i gyfathrebu'n effeithiol yn eu hamgylchedd newydd.

Ers mis Ebrill 2017, mae ACE Caerdydd yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Hywel Dda i ddarparu dosbarth ESOL am ddwyawr i rieni bob bore Gwener. Mae'r plant yn ymuno â nhw am gyfnod hefyd. Mae'r rhieni wedi meithrin mwy o gyswllt â'r ysgol, er enghraifft drwy ddod i nosweithiau rhieni, a choginio, ac mae rhai wedi mynd ymlaen i gwblhau dosbarthiadau ESOL yn y gymuned.

Mae'r grŵp yn cwrdd yn yr ysgol ac o'r herwydd gall gynnwys pob agwedd ar fywyd yr ysgol gan gynnwys helpu rhieni â nosweithiau rhieni, trefn ddyddiol yr ysgol, tripiâu ysgol, deall cylchlythyrau'r ysgol a chyflwyno Schoop (rhestr bost i rieni) i rieni. Mae hefyd o gymorth iddynt ddeall yn well sut mae'r plant yn cael eu dysgu i ddarllen, sut i helpu â gwaith cartref, a sut mae'r plant yn dysgu am y gwahanol ddiwylliannau a'r gwledydd sy'n cael eu cynrychioli yn yr ysgol, yn ogystal ag astudio diwylliant Cymru.

Dyweddodd rhieni fod y dosbarth wedi helpu i roi hyder iddynt, ac wedi eu helpu i ddeall yr ysgol a'r gymuned, ymwneud ag athrawon a rhieni eraill, ac yn bwysig iawn, i deimlo'n rhan o deulu'r ysgol.

Darpariaeth hyblyg

Gall fod yn anodd cadw dysgwyr ESOL am eu bod yn wynebu nifer o rwystrau rhag dyfalbarhau (gan gynnwys gwasgaru ceiswyr lloches, afiechyd, anawsterau o ran ffyrdd effeithiol o deithio a gofal plant, ac ati). Mae llawer ohonynt hefyd mewn swyddi cyflog isel sy'n ei gwneud yn anodd iawn dod i'r dosbarthiadau ar adegau arferol. Mae ein darparwyr a ariennir yn ceisio cynnig darpariaeth sy'n hyblyg ac yn gallu addasu i anghenion y dysgwyr.

Dim ond rhan o'r nod yw helpu pobl i gael gwaith. Mae angen helpu'r rhai sydd mewn gwaith eisoes i wella eu rhagolygon ehangach o ran datblygu gyrfa, ac mae hynny'n golygu cynnig darpariaeth hyblyg ac amrywiol y gellir ei haddasu. Does dim modd defnyddio'r 'un dull i bawb' wrth ddarparu ESOL a'r canlyniadau disgwylidig.

Mae darparwyr yn cydweithio i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o ddarparu ESOL er mwyn cyrraedd cohort mor eang â phosib o ddysgwyr. Maent yn ceisio cynnig darpariaeth ar amryw o wahanol adegau, ar wahanol lefelau, a chynnig ystod o gymwysterau i fodloni gofynion pawb.

Mae'r astudiaeth achos isod yn sôn am un o'r prosiectau sy'n ceisio cynnig darpariaeth mewn modd mwy hyblyg.

Astudiaeth achos 9 – Mynediad i Gyfathrebu ac Integreiddio

Yn rhan o'u prosiect Datrysiadau Creadigol ar y cyd (a amlinellir yn Astudiaeth Achos 1), mae Addysg Oedolion Cymru/Adult Learning Wales (AOC/ALW) wedi datblygu rhaglen dysgu hyblyg Mynediad i Gyfathrebu ac Integreiddio (ACI).

Mae'r rhaglen yn cael ei darparu gan AOC/ALW ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned. Mae'r dull hwn o weithio mewn partneriaeth yn rhan bwysig o lwyddiant y rhaglen gan ei fod yn dod â'r gymuned ESOL ynghyd er budd y dysgwr. Mae'n tynnu sylw at y rhaglen ac yn galluogi'r darparwyr i gydweithio i gynnig cymaint o gyfleoedd â phosib i ddysgwyr gael dysgu.

Mae'r rhaglen yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r ddarpariaeth brif ffrwd wedi'i hachredu. Mae'n cynnig modiwlau dysgu bach hylaw, nad ydynt yn cael eu hasesu, ar y materion a wynebir gan ddysgwyr ESOL o ddydd i ddydd (e.e. ysgolion, iechyd, tai, swyddi, ac ati). Mae hyn yn dysgu hanfodion cyfathrebu iddynt ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rhai sydd efallai'n ei chael yn anodd ymrwymo i gwrs dysgu ffurfiol. Gellir cymryd unrhyw fodiwlau a fethwyd rywbyrd eto. Cynigir modiwlau ar wahanol adegau o'r dydd sy'n golygu eu bod yn fwy cyfleus i ddysgwyr sy'n gweithio neu sydd ag ymrwymadau gofalu.

Un o amcanion allweddol y prosiect yw galluogi dysgwyr i symud mor bell â phosib tuag at y lefel nesaf o ran bod yn rhugl eu Saesneg. O'r herwydd, mae disgwyl i ddysgwyr fod wedi symud ymlaen erbyn iddynt ymadael â'r rhaglen a mynd yn ôl at raglen REACH (Astudiaeth achos 1).

Mae'r dysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen ACI yn cael statws blaenoriaeth o ran y lleoedd sydd ar gael mewn darpariaeth brif ffrwd wedi'i hachredu naill ai yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro neu AOC/ALW. Mae'r ddarpariaeth hon yn dangos pwysigrwydd bod yn hyblyg er mwyn bodloni anghenion penodol iawn y dysgwyr.

Cyllid

Mae ESOL yn parhau i fod yn flaenoriaeth ym mholisi dysgu oedolion Llywodraeth Cymru – *Dysgu Oedolion yng Nghymru* – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru i ddysgu oedolion o dan bwysau cynyddol o hyd, ond rydym wedi ymrwmo i ddiogelu'r cyllid i ddarpariaeth ESOL a Sgiliau Hanfodol i oedolion.

Mae manylion llawn y meini prawf cymhwyso er mwyn i ddysgwyr allu cael darpariaeth a ariennir ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16*⁵

Mae ffoaduriaid yng Nghymru'n cyfrif fel 'myfyrwyr cartref' ac o'r herwydd mae ganddynt hawl gyfartal i fanteisio ar holl ddarpariaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod ceiswyr lloches a'u dibynyddion yn gymwys i gael cyllid ôl-16, os ydynt yn derbyn cymorth o dan un o'r isod.

- i. Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.⁶
- ii. Deddf Plant 1989.
- iii. Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Bydd ceiswyr lloches y gwrthodir lloches iddynt ond sy'n gymwys ac yn cael cymorth o dan Adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod pob ceisiwr lloches 16 i 18 oed yn gymwys i gael cyllid, gan gynnwys ceiswyr lloches 16 i 18 oed ar eu pen eu hunain sy'n cael eu rhoi dan ofal yr awdurdod lleol.

Mesurau perfformiad

Mae cynnydd a chanlyniadau'n hanfodol i bob darpariaeth ddysgu; ac mae angen i ni sicrhau bod gan ddysgwyr ESOL nodau diffiniadwy, a chyfleoedd clir i symud ymlaen naill ai i ddysgu ymhellach neu i fyd gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n darparwyr a ariennir i sicrhau bod gennym systemau sy'n cofnodi'n gywir y cynnydd a wneir gan ddysgwyr ESOL, gan adlewyrchu'r dulliau dysgu unigol, a faint o amser sydd ei angen ar ddysgwyr ESOL i symud ymlaen.

Cymorth i ddysgwyr

Mae'n bosib y bydd llawer o ddysgwyr ESOL wedi dioddef trawma seicolegol neu gorfforol difrifol cyn dod i'r DU ac o'r herwydd efallai y byddant yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd angen mwy o gymorth arnynt i ddysgu.

Mae'n hollbwysig bod darparwyr nid yn unig yn cynnig y cymorth hwn, ond eu bod hefyd yn darparu amgylchedd dysgu diogel, a bod eu staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddeall yr anawsterau y gallai'r dysgwyr hyn eu hwynebu.

Mae'n anodd i'r rhan fwyaf o bobl ddysgu iaith newydd, ac mae'n bwysig cael cyfleoedd i ymarfer ac i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol. Mae'n rhaid i ni helpu dysgwyr i ymarfer eu sgiliau, ac i gael cymorth yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

⁵ gov.wales/docs/dcells/publications/131031-guide-planning-and-funding-framework-cy.pdf

⁶ www.legislation.gov.uk/ukpga/1999/33/contents

Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn cynnig sesiynau galw heibio i ddysgwyr ESOL, i roi cyfle iddynt i gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eu Saesneg. Mae sefydliadau fel elusen FAN (Friends and Neighbours) yn cynnal grwpiau lle y gall dysgwyr ESOL gwrdd mewn lleoliad cymdeithasol diogel i ymarfer eu Saesneg ac i ehangu eu cylch cymdeithasol drwy gwrdd â phobl eraill yn yr un ardal â nhw.

Mae sefydliadau'r trydydd sector hefyd yn darparu dosbarthiadau ESOL mwy ffurfiol, nad ydynt yn cael eu hachredu, a all helpu i ategu'r ddarpariaeth brif ffrwd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn annog darparwyr ledled y sector i gydweithio i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr. Mae'r astudiaeth achos isod yn sôn am un o'r partneriaethau hyn.

Astudiaeth achos 10 – Prifysgol De Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae Prifysgol De Cymru'n gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gynnig ateb arloesol i bobl yng Nghaerdydd sydd am ddysgu Saesneg, ond sydd wedi bod ar restr aros am ddarpariaeth ESOL ffurfiol. Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd athrawon ESOL gwirfoddol cymwys ac israddedigion sy'n athrawon Saesneg dan hyfforddiant i ddarparu dosbarth galw heibio ESOL wythnosol.

Dechreuodd y fenter ag un dosbarth yr wythnos. Daeth pymtheg o bobl i'r wers ESOL gyntaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cwmpas a maint y ddarpariaeth wedi cynyddu'n sylweddol, diolch i gyllid gan Sefydliad Waterloo a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Bellach, mae pum dosbarth Saesneg a dros 70 o ddysgwyr yn dod iddynt bob wythnos. Mae tystiolaeth a gasglwyd oddi wrth y dysgwyr yn pwysleisio bod budd cymdeithasol yn ogystal ag ieithyddol i'r dosbarthiadau.

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn awr yn darparu dosbarthiadau ESOL fel rhan o'r rhaglen Mynediad i Gyfathrebu ac Integreiddio (ACI) y cyfeirir ati yn Astudiaeth Achos 8. Yn ogystal, mae Prifysgol De Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru wedi cydweithio i wneud cais llwyddiannus am gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gynnal astudiaeth ar raddfa fawr i ymchwilio i'r rhwystrau sy'n atal ymfudwyr dan orfod rhag cael addysg, gwaith a dysgu iaith yn ardaloedd cydgyfeirio Cymru. Disgwylir i'r ymchwil gael ei gwblhau yn hydref 2018.

Yn gryno, mae'r bartneriaeth wedi tynnu sylw at y cyfleoedd aruthrol a ddaw yn sgil cydweithio agos rhwng prifysgolion a sefydliadau elusennol. Mae dod â'r ddau sefydliad at ei gilydd wedi cyfoethogi a dwysáu profiad addysgol yr athrawon dan hyfforddiant. I'r dysgwyr, mae wedi bod yn fodd o ddatblygu dosbarthiadau Saesneg wedi'u teilwra yn ogystal ag ystod eang o fentrau megis cyrsiau mynediad i brifysgolion, ysgolion haf dwys ac amryw o weithdai cyflogaeth pwrpasol.

Cynlluniau Adsefydlu Ffoaduriaid

Un newid mawr sydd wedi cael effaith sylweddol ar y galw am ESOL ers cyhoeddi'r polisi diwethaf yw cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y DU – Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed o Syria (VPRS) a'r Cynllun Adsefydlu Plant Agored i Niwed (VCRS).

Dywed Llywodraeth y DU fod sgiliau Saesneg yn hanfodol i helpu pobl sydd wedi adsefydlu i gyfathrebu yn eu cymunedau newydd. Mae dosbarthiadau ESOL yn rhan annatod o'r VPRS/VCRS ac mae Llywodraeth y DU wedi addo £10m yn rhagor o gyllid ESOL i wella sgiliau Saesneg oedolion er mwyn gwella eu profiad o adsefydlu ac integreiddio yn ogystal â'u cyflogadwyedd.

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cynnig cefnogi'r cynlluniau adsefydlu newydd, ac o'r herwydd mae pobl yn adsefydlu mewn cymunedau ledled Cymru, rhai mewn ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn siarad Cymraeg. Mae gan awdurdodau lleol sydd wedi adsefydlu ffoaduriaid gyfrifoldeb, yn rhan o'r VPRS/VCRS, i sicrhau bod darpariaeth ar gael i bobl i wella'u sgiliau ieithyddol. Mae'r pwyslais ar ddarparu gwersi Saesneg, ond lle y bo hynny'n briodol, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'u cyllid gan y Swyddfa Gartref i ddarparu cyrsiau Cymraeg hefyd. Gallai dysgu Cymraeg gryfhau integreiddio a chydlyniant cymunedol ymhellach.

Mae awdurdodau lleol a grwpiau cymorth cymunedol ledled Cymru wedi bod yn edrych ar ffyrdd gwahanol ac arloesol o gyflwyno eu darpariaeth ESOL; gan sicrhau bod y cymorth a gynigir i bobl o dan y cynlluniau adsefydlu o fudd i'r gymuned ehangach ac yn annog integreiddio a chydlyniant cymunedol.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y mae un awdurdod lleol a grŵp cymunedol yn cydweithio i helpu ffoaduriaid i ymgartrefu yn y gymuned.

Astudiaeth achos 11 – Cyngor Sir Penfro a Croeso Abergwaun

Mae Cyngor Sir Penfro a'r grŵp nawdd cymunedol Croeso Abergwaun yn cydweithio i sicrhau bod ganddynt gynifer o adnoddau â phosib a bod cynifer o gyfleoedd â phosib ar gael i bobl o Syria sy'n adsefydlu yn yr ardal.

Grŵp Croeso Abergwaun oedd y grŵp nawdd cymunedol cyntaf yng Nghymru i roi nawdd i adsefydlu teulu o Syria yn rhan o gynllun VPRS. Ers i'r teulu gyrraedd yn 2017, mae'r gymuned wedi bod yn gweithio i gynnig y cymorth sydd ei angen arnynt i ymgartrefu'n iawn.

Ond roedd darparu'r dosbarthiadau ESOL angenrheidiol yn dipyn o her, gan nad oedd y teulu'n gallu mynd i'r dosbarthiadau a oedd ar gael yn Aberdaugleddau. Felly, datblygodd grŵp Croeso Abergwaun ei ddosbarthiadau ESOL ei hun gyda chymorth tiwtoriaid ESOL a TEFL cymwys yn y gymuned sy'n gwirfoddoli i helpu â'r ddarpariaeth.

Mae'r dosbarthiadau'n cael eu cynnal yng Nghanolfan Gymunedol Sir Benfro'n Dysgu, ac mae'r teulu'n cael 6 awr o ddosbarthiadau ESOL yr wythnos gan Croeso Abergwaun. Ategir hyn gan 2 awr arall yr wythnos mewn dosbarth cymunedol a gynhelir gan Sir Benfro'n Dysgu (darpariaeth y cyngor sir). Mae dysgwyr ESOL eraill yn yr ardal hefyd yn dod i'r dosbarthiadau hyn.

Astudiaeth achos 11 – Cyngor Sir Penfro a Croeso Abergwaun (parhad)

Mae hyn yn golygu nid yn unig fod ESOL yn cael ei ddarparu mewn ardal lle nad oedd ar gael o'r blaen, ond hefyd fod dysgwyr yn y gymuned ehangach yn elwa ar y buddsoddiad, sydd yn ei dro'n helpu'r teulu o Syria i feithrin cysylltiadau a dod yn rhan o'r gymdeithas.

Gofynion ar gyfer Adsefydlu yn y DU

Nid yw materion yn ymwneud â mewnfudo a dinasyddiaeth wedi'u datganoli ac o'r herwydd Swyddfa Gartref y DU sy'n gyfrifol amdanynt. Gall y Swyddfa Gartref wneud newidiadau i bolisiau mewnfudo'r Deyrnas Unedig ar unrhyw adeg; a phennu pa hawl sydd gan bobl sy'n dod i'r DU i fanteisio ar ddarpariaeth.

Yn sgil Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 rhoddwyd polisi gwasgaru ar waith ledled y DU. Mae pedair ardal glwstwr ar hyn o bryd yng Nghymru: Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam ac Abertawe. Yn yr ardaloedd hyn, yn ôl y disgwyl, y mae'r galw mwyaf am ESOL. Er hynny, yn sgil cyflwyno'r cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid, mae galw cynyddol am ESOL ym mhob rhan o Gymru.

Ers 2015, mae'n rhaid i unigolion sy'n ymgeisio am ddinasyddiaeth basio'r prawf *Bywyd yn y DU* a phrofi eu gallu Saesneg. Mae'n rhaid i ymgeiswyr brofi eu sgiliau Saesneg naill ai drwy fod â gradd lle roedd y dysgu neu'r ymchwil yn digwydd yn Saesneg; neu drwy basio prawf mewn Canolfan Profi Saesneg Ddiogel gymeradwy (SELT). Mae dolen i restr o'r canolfannau hyn ar gael ar ein gwefan.

Er hynny, nid oes raid i ffoaduriaid sy'n gwneud cais i gael eu hadsefydlu (Caniatâd Amhenodol i Aros) brofi eu sgiliau Saesneg.

Mae darpariaeth ESOL yn gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli a Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ariannu'r ddarpariaeth. Er hynny, rydym yn rhwym wrth bolisiau'r Swyddfa Gartref ac felly mae'n rhaid i ni addasu i unrhyw newidiadau neu gyfyngiadau a gyflwynir.

Y Gymraeg

Mae bod yn gymdeithas ddwyieithog yn cynnig cyfoeth a all wneud y profiad o ddysgu Saesneg yn fwy diddorol, ac anogir ein darparwyr a ariennir i gynnwys y Gymraeg yn eu dosbarthiadau ESOL pan fo hynny'n bosib.

Mae'n bwysig iawn cydnabod a deall bod dwy iaith yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Yn ychwanegol at gefnogi integreiddio cymdeithasol, gall yr iaith Gymraeg hefyd fod yn sgil werthfawr yn y gweithle. Mae darparwyr yn helpu dysgwyr i ddeall drwy gynnwys y Gymraeg yn eu gwersi.

Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo teuluoedd yn cael eu hadsefydlu, drwy gynlluniau adsefydlu ffoaduriaid, mewn ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn siarad Cymraeg. Mae darparwyr ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod pobl sy'n cael eu hadsefydlu'n cael y ddarpariaeth ieithyddol sydd ei hangen arnynt i integreiddio'n effeithiol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid ESOL a ddaw gan y Swyddfa Gartref i helpu pobl sydd wedi adsefydlu i ddysgu Cymraeg, yn ogystal â'r Saesneg.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y gwelodd un dysgwr ESOL bwysigrwydd dysgu Cymraeg yn ei gymuned:

Astudiaeth achos 12 – Jakarin Raza

Symudodd Jakarin Raza o Bangladesh i Gaernarfon pan oedd yn 17. Doedd neb yn y teulu'n gallu siarad Saesneg, ac felly fe wnaethon nhw gais i wneud dosbarth Saesneg cymunedol yng Ngholeg Menai, Caernarfon, ac ymunodd 6 aelod o'r teulu â'r dosbarth.

Roedd Jakarin yn awyddus i weithio ym maes TG neu sefydlu ei fusnes ei hun. Er mwyn gwneud hynny, roedd yn gwybod bod angen iddo allu siarad Saesneg yn rhugl a gwnaeth gais i ddilyn cwrs Saesneg llawn amser yng Ngholeg Menai, Bangor. Ar ddechrau'r siwrnai doedd gan Jakarin ddim Saesneg o gwbl. Helpodd y tiwtoriaid Jakarin i sylweddoli ei fod yn byw mewn cymuned ddwyieithog, a gan ei fod yn byw yng Nghaernarfon, penderfynodd y dylai ddysgu Cymraeg er mwyn teimlo'n rhan o'r gymuned. Yn ddiweddar, mae wedi sefydlu ei fusnes ei hun ym Mangor ac mae gallu siarad Saesneg a Chymraeg yn sicr wedi helpu.

Mae'r teulu cyfan wedi elwa ar ddosbarthiadau Saesneg y coleg. Dilynodd ei chwaer yn ôl troed ei brawd ac mae bellach ym mlwyddyn olaf ei chwrs trin gwallt a harddwch yn y coleg, ac mae hithau hefyd wedi dysgu Saesneg a Chymraeg. Pwy a wŷr, efallai y bydd hithau hefyd yn sefydlu ei busnes ei hun.

Yn fwy cyffredinol, mae dysgwyr ESOL yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg drwy'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ymwybodol o'r angen i ymdrin ag anghenion lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mewnfudwyr o ran darpariaeth addas i ddysgu Cymraeg, ac mae'n edrych ar wahanol opsiynau i helpu i wneud yr iaith yn hygyrch i gynifer o bobl â phosib.

Mae'r astudiaethau achos isod yn sôn am rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd i helpu dysgwyr i ddilyn cyrsiau Cymraeg.

Astudiaeth achos 13 – Cymraeg i Oedolion nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi defnyddio Grant Arloesi i ariannu dau brosiect rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2018:

Dysgu Cymraeg yng Nghaerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gynnig cyrsiau Cymraeg i Oedolion dwys ar lefel Mynediad (4-6 awr yr wythnos neu floc dros wythnos neu bythefnos). Mae Matt Spry wedi'i benodi i weithio ar y prosiect. Hyfforddodd Matt fel gweithiwr cymdeithasol ond mae'n gweithio i'r Cyngor Ffoaduriaid ers peth amser, ac mae wedi gwirfoddoli i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg anffurfiol yn yr African Café yn Adamsdown. Gan fod llawer o'r gymuned ffoaduriaid a cheiswyr lloches eisoes yn ymddiried yn Matt, y gobaiith yw y byddant yn fwy agored i gyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Astudiaeth achos 13 – Cymraeg i Oedolion nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt (parhad)

Dysgu Cymraeg yng Ngwent

Mae Coleg Gwent yn cynnal prosiect bach yng Nghasnewydd i gael deall yn well beth yw teimladau a safbwyntiau pobl o gefndiroedd amlddiwylliannol ynglŷn â dysgu Cymraeg, a beth yw'r rhwystrau posib rhag dysgu. Maent yn bwriadu cynnig cyrsiau codi ymwybyddiaeth iaith a sesiynau blasu Cymraeg (1 diwrnod yn rhannu gwybodaeth, ac yna 6 sesiwn iaith ac ymwybyddiaeth iaith) mewn lleoliadau sydd eisoes yn boblogaidd ymhlith aelodau'r cymunedau hyn. Gyda chymorth Cyngor Sir Casnewydd, maent yn bwriadu paratoi adroddiad ar eu canfyddiadau a fydd o gymorth i hybu arferion gweithio effeithiol mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Dyfodol y ddarpariaeth ESOL

Fel y gwelir yn yr astudiaethau achos sydd yn y datganiad polisi hwn, does dim 'un ffordd' o ddarparu ESOL; a does dim y fath beth â 'dysgwr ESOL nodweddiadol'. Mae ein rhwydwaith o ddarparwyr ESOL yng Nghymru'n gweithio mewn modd creadigol a blaengar i helpu dysgwyr ledled y sector i gael y ddarpariaeth sydd fwyaf effeithiol iddynt.

Mae'r amgylchiadau sy'n dod â phobl i'n gwlad yn newid o hyd a bydd y galw am ein gwasanaethau ESOL yn parhau i dyfu. Mae cymunedau cydlynol a Chymru fwy cyfartal yn hanfodol i'n hegwyddorion ac i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae darparu ESOL o safon uchel yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae helpu mewnfudwyr i fagu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen arnynt i wneud y defnydd gorau o'r sgiliau sydd ganddynt eisoes yn bwysig i'r economi ehangach yng Nghymru. Rydym am fanteisio i'r eithaf ar y doniau lu y mae mewnfudwyr yn eu cynnig i'n gwlad ac mae cefnogi datblygiad iaith yn rhan hanfodol o hynny.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid ar draws yr holl ddarpariaeth ESOL, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector, i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ESOL mewn modd blaengar a chreadigol.

Nodir isod rai o'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod ESOL yn parhau i fod yn effeithiol ac yn hygyrch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Parhau i ariannu ESOL fel Sgil Hanfodol yn unol â'n polisi ar gyfer ariannu Sgiliau Hanfodol;
- Parhau i chwilio am ffynonellau ariannu eraill ac ychwanegol, gan gynnwys ffrydiau ariannu sydd ar gael yn y DU a'r UE, er mwyn gallu parhau i ddarparu ESOL;
- Ehangu cynlluniau peilot llwyddiannus (megis REACH ac ACI) i rannau eraill o Gymru;
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith o ymarferwyr ESOL yng Nghymru, i rannu ac i hybu arfer da, adnoddau a gwybodaeth;
- Gweithio gyda phartneriaid a'r Swyddfa Gartref i gydlynu'r ddarpariaeth ESOL (mewn cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid a phrif ffrwd); a sicrhau bod llwybrau cynaliadwy ar gael i ddysgwyr allu symud ymlaen i'w helpu i barhau i ddysgu – o fewn ESOL ac yn ehangach; a gwella eu rhagolygon gwaith;

- Ystyried effeithiau posib cynlluniau'r DU i ymadael â'r UE, a'r effaith y gallai hynny ei chael ar ddysgwyr ESOL nawr ac yn y dyfodol, ac ar y galw a'r ddarpariaeth yng Nghymru;
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael i ddysgwyr ESOL ar y lefel sy'n briodol i'w hanghenion; waeth sut y daethant i Gymru;
- Gweithio gyda darparwyr ESOL a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gryfhau hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyrsiau ESOL a gwella llwybrau mynediad i ddysgwyr ESOL i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a chyfrannu at uchelgais y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- Ystyried gwahanol ffyrdd o gofnodi data ynghylch dysgwyr ESOL i adlewyrchu cymhlethdod y ddarpariaeth a'r canlyniadau meddalach a all adlewyrchu cynnydd;
- Parhau i gyhoeddi data ar gwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant;
- Parhau i hybu ac ariannu cymwysterau ac unedau credyd priodol;
- Dysgu o ganlyniadau cynllun peilot REACH a gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i gydlynu darpariaeth ESOL yn well – drwy gyflwyno'r model REACH yn ehangach neu ddatblygu Hybiau ESOL;
- Gweithio gyda darparwyr ledled y sector i archwilio cyfleoedd i ariannu meithrinfeydd neu i gydweithio â darpariaeth cyn-ysgol sydd eisoes ar gael i chwalo'r rhwystrau hyn sy'n atal dysgwyr rhag manteisio ar y ddarpariaeth.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwyr a ariennir:

- Sicrhau bod gan athrawon a darpar athrawon ESOL gymwysterau a hyfforddiant arbenigol – er mwyn gwneud cymhwyster Lefel 5 yn safon ofynnol yn y sector;
- Asesu dysgwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn deall ar ba lefel y maent, pa lefel y maent yn gweithio tuag ati, a lefel unrhyw achrediad neu ardystiad a enillwyd;
- Cynnig cyfleoedd hyfforddi proffesiynol a chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol myfyrwyr ESOL;
- Sicrhau bod gan aseswyr ESOL gymwysterau digonol;
- Cynyddu a gwella rôl cynorthwyywyr dosbarth ESOL;
- Annog gwirfoddolwyr i hyfforddi, er mwyn cefnogi datblygiad dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, ac mewn cyd-destunau mwy anffurfiol;
- Gwella'r cyfleoedd i ddysgwyr gofrestru ar adegau priodol drwy gyflwyno trefniadau cofrestru mwy hyblyg;
- Cynnig darpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys yn y gymuned a'r gymdogaeth; a gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu ESOL yn y gwaith pan fo hynny'n bosib;
- Sicrhau bod maint dosbarthiadau'n briodol ac yn berthnasol i anghenion y dysgwyr;
- Sicrhau bod dysgwyr yn deall y lefel y cawsant eu hasesu arni i gychwyn, pa lefel y maent yn gweithio tuag ati, a'r achrediad sydd ei angen arnynt i fynd ymhellach;
- Cynnig darpariaeth i fodloni amrywiol anghenion dysgwyr, gan ystyried: lefelau priodol, lleoliad, amserlenni a chefnidir addysgol y dysgwyr;
- Annog dysgwyr i gefnogi eu datblygiad drwy gynnig adnoddau ar-lein – gan gynnwys cyrsiau a chymhorthion dysgu ar-lein;
- Gweithio gyda phartneriaid i helpu dysgwyr i ddatblygu grwpiau cymdeithasol ar gyfer cymdeithasu ac ymarfer eu sgiliau.

Cyfeiriadau a Gwefannau

Holtom, D, Bottrill, I, a Watkins, J. 2013. *Poverty and Ethnicity in Wales*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Deddf Plant 1989

www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents

Deddf Mewnfudo a Lloches 1999

www.legislation.gov.uk/ukpga/1999/33/contents

Deddf Cymorth Gwladol 1948

www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/11-12/29

Schellekens, P. 2011. *Teaching and Testing the Language Skills of First and Second Language Speakers*. Caergrawnt: Cambridge ESOL

Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed

www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631369/170711_Syrian_Resettlement_Updated_Fact_Sheet_final.pdf

Partneriaeth Ymfudo Strategol CLILC – Porth Ymfudo Cymru

www.wsmp.org.uk/

Llywodraeth Cymru, 2017, Ffyniant i Bawb

gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

Llywodraeth Cymru, 2017, datganiad polisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru*

gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/adult-learning-in-wales

Llywodraeth Cymru, 2014, *Polisi ESOL yng Nghymru*

gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/esolcourse/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru, 2014, Canllaw i'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16

gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/post-16-planning-and-funding/guide-to-the-framework/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru – Cymraeg i Oedolion

cymraeg.gov.wales/learning/Adults/Welsh-for-Adults/?lang=cy

Llywodraeth Cymru – Polisi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/asylum-seekers-and-refugees/?skip=1&lang=cy